# Canllawiau ar Aelodaeth Fforymau Mynediad Lleol ym Mharc Cenedlaethol Eryri

## Cefndir:

Yn unol â *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*, mae dau Fforwm Mynediad Lleol wedi eu sefydlu ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae un Fforwm yn gyfrifol am ardal yng ngogledd y Parc yn Nwyfor ac Arfon; ac mae Fforwm ar y Cyd (gyda Chyngor Gwynedd) yn gyfrifol am ardal Meirionnydd, y tu mewn a'r tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol. Mae Aelodau yn cael eu hail-benodi bob 3 mlynedd.

Swyddogaeth y Fforymau yw cynghori Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd, Cyngor Conwy a Chyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ar wella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden a mwynhad yn yr awyr agored.

Mae'r Fforymau yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn; gyda chyfarfodydd is-grŵp yn cyfarfod yn ôl y galw. Cynhelir cyfarfodydd yn ystod gyda'r nos (gyda swper ysgafn yn cael ei ddarparu).

## Meysydd Gwaith

Ymgynghorir â'r Fforymau Mynediad Lleol ar faterion yn ymwneud â mynediad cyhoeddus yn yr ardal, gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus, hawliau mynediad tir agored a thir comin cofrestredig, gwelliannau i fynediad at yr arfordir a mynediad i afonydd a llynnoedd. Mae'r Fforymau hefyd yn ymateb i nifer o bapurau ymgynghori gwahanol yn ôl y galw sydd yn berthnasol i ddarpariaeth mynediad   Y Fforymau eu hunain sy'n penderfynu ar union natur y gwaith, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Penodi.

Nid oes tâl am fod yn aelod o'r Fforwm, ond telir lwfansau teithio a chostau gofal gan APCE.

## Meini Prawf ar gyfer Aelodaeth:

Dyma restr o feini prawf y bernir ceisiadau am aelodaeth yn eu herbyn. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i ymgeiswyr o reidrwydd gydymffurfio â'r holl feini prawf i lwyddo.

Bydd Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn:

- Ymrwymedig i swyddogaeth y Fforwm. *Pwrpas y Fforymau yw cynghori Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ar wella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden a mwynhad yn yr awyr agored.*

- Fodlon a pharod i chwarae rhan lawn ym mhob agwedd o waith y Fforwm Mynediad Lleol. Mae'n annhebyg y bydd ymgeiswyr sydd ond yn barod i gynrychioli diddordeb cyfyng, penodol yn aelodau addas.

- Meddu ar brofiad eang o faterion mynediad yn yr ardal. Yn ddelfrydol, byddant yn gallu mynegi barn o safbwynt defnyddwyr a rheolwyr tir. (Mae'r aelodaeth wedi ei rannu yn 50/50 rhwng y ddau sector).

- Byw yn yr ardal y mae’r Fforwm yn ymwneud â hi, bod yn arbennig o gyfarwydd â’r ardal honno neu fod ag unrhyw ddiddordeb arall sy’n uniongyrchol berthnasol iddi.

- Gallu rhwydweithio gyda nifer fawr o sefydliadau ac unigolion er mwyn ychwanegu gwerth at waith y Fforwm.

- Gallu dod i bob un o gyfarfodydd y Fforwm.

- Gallu rhoi barn gytbwys ar weithgareddau sydd yn berthnasol i fynediad yn gyffredinol.

**Ionawr 2026**